Gair bach Bethlehem 40

www.bethlehem.cymru (trydar) @GweBethlehem **Gwaelod-y-garth** – rhif 40 (Rhifyn Dechrau'r Gwanwyn - Mawrth 2023)
(Arbedwch inc a phapur! Peidiwch ag argraffu hwn – dim ond ei ddarllen ar-lein.)

Côr yr Ysgol Sul yn yr oedfa Gŵyl Ddewi ar fore Sul, Mawrth 5ed (rhagor o'u lluniau ar dudalennau 6 & 7)

Fore Sul, Chwefror 5ed, gwelwyd dwy fach yn cael eu bedyddio ym Methlehem...

Uchod, bedydd Sara Wyn, merch Gwenllian Wyn a Sion Meilir

Uchod, Delwyn yn bedyddio Betsi Elan, merch Cadi (Catrin Heledd) a Hywel, Gwaelod-y-garth

Rhifyn orlawn eto'r tro hwn (diolch i chi):
■ Gwyl Ddewi ■ Enillwyr dwy Gadair a Medal ■ Prosiect cerdd ar Y Gwynfydau ■ Sul y CyfUNdeb ■ Arfordir Cymru ■ Canmlwyddiant y BBC a Logo a dathliadau 150 Bethlehem ■ Holi am eich hoff emyn ■ Newyddion

Neges Delwyn

20 Mlynedd yn ôl.

"Ugain mlynedd yn ôl siaradwyd yn fyrbwyll a ffôl,
Ugain mlynedd yn ôl,
Ond heno fe gymrwn gam ymlaen."

Ie, i'r rhai hynny ohonoch chi sy'n ddigon hen i gofio, un o ganeuon Hergest oedd "Ugain mlynedd yn ôl". Cân oedd wedi'w gosod ugain mlynedd yn y dyfodol, ond oedd yn edrych nôl ugain mlynedd i'r gorffennol! Ie, cymhleth wi'n cyfaddef ! Ond beth bynnag am hynny, ma' gan y geiriau ugain mlynedd yn ôl arwyddocâd gwahanol y mis yma, am taw ar yr 20fed o Fawrth 2003 (ie, 20 mlynedd yn ôl) fe ymosododd lluoedd yr Amerig a "Phrydain Fawr" a'u cynghreiriaid ar Irac, gan ddymchwel Saddam Hussein a'i lywodraeth. Roedd yr ymosodiad yn rhan o ymateb yr Arlywydd George W. Bush i ymosodiadau 9/11 ar y tyrrau yn Efrog Newydd (er nad oedd gan Irac unrhyw gysylltiad uniongyrchol â'r ymosodiadau hynny.) Ymosodiad/Rhyfel er mwyn dod â heddwch a democratiaeth i'r rhanbarth medd America, ond y gwir yw bod yr ymosodiad wedi cael effaith andwyol ar draws y Dwyrain Canol, gan greu mudiadau terfysgol fel Isis, a brwydro di-baid rhwng carfannau ethnig. Canlyniad hyn i gyd oedd i gannoedd o filoedd o bobol gyffredin y wlad gael eu lladd, ac mae effaith yr ymosodiad yn dal yn dylanwadu ar wleidyddiaeth y Dwyrain Canol hyd heddi, ugain mlynedd yn ddiweddarach.

Ie, mis Mawrth 2003. A dyma ni ym mis Mawrth 2023.

Mawrth, mis a enwyd ar ôl duw rhyfel y Rhufeiniaid - Mârs, duw rhyfel ie, ond un oedd yn rhyfela er mwyn sicrhau heddwch! Mmm, lle dwi wedi clywed hwnna o'r blaen? Ydy'r fath beth yn bosib? (Trafodwch!) Beth bynnag, roedd e' hefyd yn dduw oedd yn amddiffynnwr i bobol Rhufain, ac amddiffynnydd amaethyddiaeth! Rhyw NFU o dduw! Ac ma' hynny'n clymu'r duw nid â mis Mawrth o ddathlu rhyfel, ond gyda'r mis Mawrth sy'n dathlu'r Gwanwyn. Mis pryd ma' natur yn draddodiadol yn deffro o'i thrwmgwsg, ac yn ail eni. Goleuni a gwres y Gwanwyn yn troi cefn ar dywyllwch ac oerni'r Gaeaf. Er, ym mis Mawrth 2023 'dyw oerfel y Gaeaf ddim yn ddigon oer, a dweud y gwir mae'n *beryglus o gynnes*, ac mae'r Cenhedloedd Unedig wedi rhoi'r rhybudd cliriaf croywaf un bod y byd yn mynd i fynd a'i ben iddo os na wnawn ni rywbeth am sefyllfa'r Hinsawdd a Thwymo Byd Eang.

Y mis yma hefyd mae arweinwyr Rwsia a China wedi cwrdd ym Moscow, dau arweinydd ar ddwy wlad sy' a'u bryd ar fod yn ddylanwadol ar lwyfan ehangach y byd. Be' fydd yn cael ei drafod tu ôl i ddrysau caeedig y Kremlin fis Mawrth 2023 tybed? A beth fydd ein hanes ym mis Mawrth 2043? Ac wrth edrych yn ôl, a fydd mis Mawrth 23 yn fis o dywyllwch neu'n fis o oleuni?

Ai "Ugain mlynedd yn ôl siaradwyd yn fyrbwyll a ffôl" bydd hi, neu "Fe gymrwn gam ymlaen" ?

Ar drothwy'r Pasg, a buddugoliaeth y Goleuni, gobeithiwn, er mwyn ein plant, a phlant y byd, mai cymryd "cam ymlaen" a wnawn.

Delwyn

Prosiect nesaf Eilir ***Ymunwch!***

Y Gwynfydau ar gân

Yn ystod yr oedfa ar Sul y 19eg o Fawrth 2023, cawsom glywed Eilir Owen Griffiths yn sôn am y prosiect diweddaraf y bu'n gweithio arno yn ddiweddar, ac a fyddai yn cael ei gyflwyno yn y Tabernacl, Yr Ais, Caerdydd, am 6:30 p.m. ar Sadwrn y 25ain o Fawrth 2023. Meddai Eilir, "B*ydd côr newydd sbon o bobl ddu eu croen yng Nghaerdydd yn ymuno a chôr CF1 i greu* ***Swn Llwythol / Tribal Sounds****. Cyfuniad o emynau Cymraeg wedi eu plethu gyda synau Gospel Affricanaidd. Mae o am fod yn spesial."* **(Gweler tudalen 17 o'r rhifyn hwn am ragor o fanylion)**

Ond neges Eilir wedi'r oedfa, mewn sgwrs â Delwyn, oedd ei fod hefyd yn gweithio ar ei brosiect nesaf ar ôl hwn, sef cyflwyniad ar gân o'r "Gwynfydau". A'i ddyhead ydi gweld Côr y Capel, ie y ni, yn cyflwyno'r cyfanwaith ym Methlehem tua diwedd y flwyddyn.

Eilir fydd yn gyfrifol am gyfansoddi'r gerddoriaeth, ond i gyd-fynd a'r geiriau cyfarwydd sy'n rhan o'n Beibl ni, mae Eilir yn holi am gymorth unrhyw un fyddai'n fodlon ysgrifennu geiriau i ganeuon wedi eu seilio ar ein dehongliad cyfoes o'r "Gwynfydau".

Bydd mwy o wybodaeth ar gael gan Eilir o'r hyn fyddai'n ddisgwyliedig gennych, ond yn y lle cyntaf sicrhau eich diddordeb a'ch parodrwydd i ystyried y cais sydd ei angen.

Felly dyma'r her i bawb ohonoch – pwy o'ch mysg sydd am fod a rhan yn y fenter yma? Mynnwch air ag Eilir ar fyrder.

Babis Newydd

Croeso i'n plith i gefnder a chyfnither bach newydd i'w gilydd – ac ychwanegiad at wyrion Joy ac Eifion tua Pentyrch.

- Mae Lena wedi cyrraedd aelwyd Anna ac Owain Morgan – yn chwaer fach newydd sbon i chwaer i Deio a Nico.

- Ac yna daeth cefnder iddi – (heb gyhoeddi'r enw wrth i ni fynd i'r wasg) – mab bach i Rosanna ac Ifan Glyn a brawd bach newydd i Besi Ann a Morus Ifan

Os ydyn ni wedi colli rhyw newydd ddylai fod wedi ei gynnwys yn y rhifyn hwn o

Gair Bach Bethlehem

Unionwch y cam - ac anfonwch air i'r rhifyn nesaf.

Mae digon o amser! Deunydd ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn Mai 5ed : *tycnau@aol.com*

Suliau Bethlehem – Ebrill a Mai

EBRILL

02 Ebr Parchedig Gethin Rhys
07 Ebr Oedfa ***Dydd Gwener y Groglith***
09 Ebr Oedfa Sul y Pasg
16 Ebr Taith Gerdded ac Oedfa ar y diwedd
23 Ebr Arwel Ellis Owen
30 Ebr Parchedig Jeff Williams

MAI

07 Mai Delwyn Sion (Oedfa Gymun)
14 Mai Oedfa Cymorth Cristnogol
21 Mai Oedfa Ardal Gorllewin Caerdydd
28 Mai Huw Lloyd

(Chwith) Mae ein prif ddyn camera, Wyn Jones, newydd ddathlu ei ben-blwydd yn 70 mlwydd oed. Ond mae'n dal i gofnodi'r holl oedfaon welwch chi ar YouTube. Roedd wrth ei waith yn yr oedfa Gŵyl Ddewi tra bu'r gynulleidfa'n canu "Pen-blwydd Hapus" iddo – a hynny'n fuan ar ôl dychwelyd yn ddi-anaf o'i wyliau'n sgïo.
(***Chwith, isod)*** Braf gweld fod yna organydd (newydd i ni) wedi ymuno a'r rhengoedd o gyfeilyddion. Ar Chwefror 26, clywyd a gwelwyd Cedric Jones wrth yr offeryn am y tro cyntaf ym Methlehem – a'r tro cyntaf iddo yntau gyfeilio ers rhyw 2 flynedd.
(Dde, isod) Yn yr un modd, da nodi i Rhian Harding fod wedi ymuno â'r cyfeilyddion ar fore oedfa Gŵyl Ddewi yr Ysgol Sul, eleni. Mae nifer o athrawon yr Ysgol Sul wedi camu i gynnig eu doniau dros y blynyddoedd, a dyma'r tro cyntaf i Rhian fod yn y rôl arbennig hon.

Colli Gwyneth Williams, Pentyrch

Yn oedfa'r Merched, talodd Eirlys Davies deyrnged i'r ddiweddar Gwyneth Williams, Pentyrch, un a fu'n ddiwyd iawn yn nyddiau sefydlu'r Cwrdd Merched. Bu Gwyneth farw ar Chwefror 2il a hynny ar ôl dioddef cyfnodau o iechyd bregus ers 2007. Roedd Gwyneth yn un o Gymry Llundain, fel ei phriod John, ond gyda chysylltiadau teuluol â Thremadog a Betws Bledrws ger Llanbedr Pont Steffan, gan iddi dreulio peth o gyfnod yr ail Ryfel Byd gyda'i theulu yng Nghymru i osgoi cyfnod trymaf y bomio yn Llundain.

Cynhaliwyd yr angladd yn Amlosgfa'r Ddraenen Wen ar Fawrth 10 ac un o gyfeillion y teulu, y Dr Rowland Wynne, Pentyrch, oedd yn arwain y gwasanaeth.

Yn ei deyrnged iddi, bu un o'r meibion, Hywel, yn adrodd fel symudodd John a hithau i Perthi Bach ym Mhentyrch yn 1974, tra roedd y plant yn ifanc.

Roedd Gwyneth yn nyrs wrth ei galwedigaeth, a bu iddi ddewis yr yrfa honno ar ôl treulio cyfnod yn yr ysbyty pan oedd yn blentyn yn Llundain. Ymhlith y teyrngedau darllenwyd y gerdd "Myned Tua Thre" o waith ei hail fab, Gareth.

Rydyn ni'n cofio gynnes iawn at ei phriod, John, a'r plant, Hywel, Gareth a Sian a'u teuluoedd, yn eu colled.

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu i'r rhifyn hwn – o ran geiriau a lluniau

Cofiwch am ein rhifyn nesaf!

Byddai'n braf cael gair gennych erbyn

MAI 5ed 2023

UNRHYW BWNC ~ UNRHYW HYD

Anfonwch air neu lun at Ifan Roberts – tycnau@aol.com

NEWYDDION

Creu Logo'r Dathlu

Be di "logo"? A phryd y daeth yn rhan o'n geirfa ni tybed?

"*Arwydd neu symbol a luniwyd i gynrychioli cwmni, mudiad ac yn y blaen*" ydi "logo" yn ôl Geiriadur Prifysgol Cymru, ac o ran ei ddefnydd yn Gymraeg, dim ond ers 1983 y daeth yn rhan o'n geirfa ysgrifenedig, a'r cofnod cyntaf ohono ym mhapur bro Eco'r Wyddfa!

A phan awgrymwyd wrth Alwyn Harding y byddai cael logo ar gyfer dathliadau 150 mlwydd oed y Capel eleni yn beth buddiol, fe neidiodd ar y cyfle a chyflwyno'r cynnig isod ar ein cyfer.

Byddai'r cynllun crwn yma yn ein galluogi e.e. i greu cofroddion bychan ar lechen, y gellid eu cyflwyno i blant y capel i gofio'r dathlu.

Gallwn hefyd ei ddefnyddio ym mhob gohebiaeth yn ystod y flwyddyn gyfredol fel arwydd o'n parhad er gwaethaf y ffigyrau siomedig a ddadlennwyd yn sgil Cyfrifiad 2021 am le crefydd a'n hiaith yn ein gwlad.

Mae Anthony Evans hefyd yn paratoi arlunwaith yn ymwneud a'r capel ar gyfer y Dathlu, ac a fydd yn ei dro ar gael i'w argraffu ar ffurf print, ond mwy am hynny y tro nesaf!

Oedfa Gŵyl Ddewi yr Ysgol Sul

(Dwy dudalen o luniau)



Oedfa Gŵyl Ddewi

(yr ail dudalen)



Unwaith eto, diolch i bawb fu'n cymryd rhan ac i Heulwen , yr athrawon a'r rhieni am baratoi'r plant ar gyfer yr oedfa.

Crynodeb **Rhodri-Gwynn Jones (Yr Ysgrifennydd)**

O'r Cwrdd Diaconiaid

Cyfarfu'r Diaconiaid ddiwethaf ar y 6ed o Chwefror 2023. Dyma grynodeb byr o'r drafodaeth a gafwyd:-

Diogelwch Plant ac Oedolion Bregus:
Cadarnhawyd bod y copi o'r llawlyfr "Diogelwch Plant ac Oedolion Bregus" wedi ei ddiweddaru, ac hefyd ein bod mewn cyswllt a swyddogion y Panel Diogelu Cydenwadol ynglyn a threfnu hyfforddiant .
Mae'r fersiwn ddigidol gyfredol o'r Llawlyfr ar wefan y Capel

Dathlu'r 150:
Cytunwyd ar y drefn ganlynol ym mis Mehefin eleni i ddathlu 150 mlynedd ers agor y Capel Bethlehem presennol:-
4 Mehefin – Oedfaon Dathlu'r 150 (Delwyn Sion)
11 Mehefin – Oedfaon Dathlu'r 150 (Cymanfa Ganu dan arweiniad Eilir Owen Griffiths am 5:00 p.m.)
18 Mehefin – Oedfaon Dathlu'r 150 (Yr Ysgol Sul)
25 Mehefin - Oedfaon Dathlu'r 150 (Parchedig R Alun Evans)

Gwaith Elusennol / Cymdeithasol:

- Mae o hyd yn fwriad i adolygu'r trefniant presennol gyda'r teuluoedd sy'n cefnogi "Plan International"
- Nodwyd fod darpariaeth "Te yn y Tabernacl" yn parhau er mai prin oedd y mynychwyr. Cydnabuwyd parodrwydd Ann ac Ian Hughes i barhau fel cydlynwyr ar ein rhan dan y drefn newydd a oedd i'w mabwysiadu.
- Nodwyd, gyda diolch, bod cyfraniadau i'r Banc Bwyd yn parhau ar Sul cyntaf y mis.
- Cytunwyd na fyddid, ar hyn o bryd, yn prysuro a'r awgrym o agor y Festri ar gyfer trigolion y pentref yn ystod y gaeaf nesaf. Nodwyd bod "Mannau Cynnes" cydnabyddedig eraill yn y cylch wedi derbyn cymorth ariannol o gronfeydd Llywodraeth Cymru at yr un pwrpas.
- Trafodwyd ychwanegu at y drefn o baratoi te wedi oedfaon i gynnwys misoedd cyd- addoli Gorffennaf ac Awst, ac hefyd ar achlysuron eraill yn ôl y gofyn.
- Mae o hyd yn ddyhead i weld ail-sefydlu CAIB (Clwb Ieuenctid Bethlehem) ar gyfer plant mewn ysgolion uwchradd, gydag un cyfarfod misol yn debygol ar y cychwyn.

Materion yn ymwneud a'r Adeiladau a'u cynnwys:

- Diolch i Luned Walters a'r teulu am y piano trydan newydd sydd yn y Festri
- Mae bwriad i ail-ddodrefnu'r Festri, ond yn debygol o gymryd mwy o amser na'r disgwyl cyn dod i fwcl.
- Mae blwch rheoli sain newydd ar gyfer y capel yn ei le – mae lle o hyd i wella'r sain yn y Galeri.
- Hyd yma nid oes cyfle wedi bod i drafod system oleuo newydd ar gyfer y capel.
- Bydd canllaw pren isel o gwmpas ffin y Galeri yn cael ei osod ar gost o rhyw £1500, er cydymffurfio a rheoliadau adeiladu cyfredol.
- Nodwyd y dylid ail-edrych am gynllun i sicrhau canllaw i'r grisiau sy'n arwain tua'r Galeri o'r cyntedd.
- Nodwyd bod costau nwy a thrydan yn sylweddol uwch na'r blynyddoedd blaenorol.
- Mae'n profi'n anodd trefnu adnodd i ddelio a'r tyfiant o amgylch y capel.
- Nodwyd bod Bethlehem, Gwaelod-y-garth, bellach wedi ei gydnabod fel capel eco-gyfeillgar dan nawdd yr elusen Eco-Church. Mae'r dystysgrif i ddynodi hynny yn y cyntedd. (gweler y llun). [Bydd gwaith ychwanegol i'w gwblhau cyn sicrhau'r arian a'r aur!]
- Derbyniwyd gohebiaeth oddi wrth Gyngor Cymuned Pentyrch dan ddeddf "*Mines & Quarries Act 1969 (Part11): Maintenance of Disused Tips*" yn nodi bod tip glo wedi ei leoli ar y tir uwchben y capel, y "*Capel Bethlehem Coal Level, Tip B*".
  Mae'r llythyr yn cadarnhau bod y Cyngor Cymuned, fel tirfeddiannwr, yn gyfrifol am archwilio, monitro, ac gwneud unrhyw waith diogelu angenrheidiol petai'r tip yn bygwth yr adeiladau gyferbyn. Maent hefyd yn cadarnhau nad oes awgrym o unrhyw symud yn y tip ar hyn o bryd.

(Parhad ar y dudalen nesaf)

Materion Ariannol:

- Mae'r cyfrifon am flwyddyn 2021-22 wrthi'n cael sylw Lowri Clement a Wyn Jones sy'n ei gwirio ar ran yr eglwys. Bydd y fantolen yn cael ei rhoi ar wefan y capel.
- Cytunwyd y dylid ymateb ar frys i'r apêl yn dilyn daeargryn yn Nhwrci a Syria yn gynharach y dydd, ac y byddai rhodd o £1500 i un o'r elusennau perthnasol yn deilwng.

Cwrdd Eglwys - Banc Natwest

Bu'n rhaid cynnal Cwrdd Eglwys brys ar Sul yr 22ain o Ionawr 2023 oherwydd bod y banc yn barnu nad oedd llofnod y Trysorydd wedi ei ddilysu. Cytunwyd yn unfrydol yn y Cwrdd Eglwys y dylid unioni'r cam yma rhag blaen, a anfonwyd Cofnod ffurfiol o'r penderfyniad i'r banc. Ymddengys y gall materion o'r fath gymryd amser i'w datrys! Mynegwyd diolch a chydnabyddiaeth o waith y Trysorydd ac Ian Hughes gyda'r materion ariannol ar ran y capel.

Y Ddiaconiaeth:

- Cadarnhawyd ymddiswyddiad Delyth Evans (Y Barri) o rengoedd y Diaconiaid ym Methlehem. Cydnabuwyd a gwerthfawrogwyd ei chyfraniad fel Ysgrifennydd y Cyhoeddiadau, ac fel Diacon ym Methlehem dros gyfnod o bedair blynedd.
- Yn dilyn yr uchod, a'r newid yn y Ddiaconiaeth dros y blynyddoedd diwethaf (5 wedi dymuno eu rhyddhau ers dechrau'r cyfnod clo), cytunwyd y dylid gwahodd yr aelodaeth i ystyried sefyllfa Diaconiaid Bethlehem yn ystod tymor y gwanwyn, gyda'r argymhelliad o du'r Diaconiaid y dylid ychwanegu at y rhengoedd.
- Bydd rhestr yn cynnwys swyddogaethau a chyfeiriad e-bost pob un Diacon yn cael ei chynnwys ar y wefan.
- Bydd y Diaconiaid yn cwrdd nesaf ar y 12fed o Fehefin 2023.

Dewch - dewiswch emyn!

Bethlehem yn canu

Fe sylwch o Adroddiad y Cwrdd Diaconiaid (uchod) bydd Cymanfa Ganu i'w chynnal fel rhan o ddathliadau 150 mlynedd y Capel Bethlehem presennol.

Ac fe sylwch hefyd bod Eilir Owen Griffiths wedi cytuno i'w harwain!

Mae'r traddodiad Cymanfaoedd Canu yn ymestyn yn ôl dros ganrif a mwy ym Methlehem – hwyrach yn wir y cofiwch i ni ddathlu'r 100fed ar y 1af o Ebrill 1988, a hynny dan arweiniad Alun Guy, Caerdydd.

Fel y gwelwch o'r dudalen yn y llun, cynhaliwyd tri chyfarfod bryd hynny - am 10:30 a.m., 2:30 p.m. a 6:00 p.m., dan nawdd Eglwysi Annibynnol Groes-wen a Bethlehem, gyda tri cyfeilydd – Mrs Valmai Archard (Groes-wen), a Mr Glyndwr Williams a Mr Christopher Powell, y ddau yn organyddion ym Methlehem.

Cyhoeddwyd Taflen arbennig ar gyfer y Gymanfa yma, gyda rhagair gan Chris Powell yn olrhain peth o hanes yr achlysur tros y ganrif a aeth heibio.

Dewiswyd yr emynau i'w canu o raglenni Cymanfaoedd y gorffennol, gyda'r rhai cynharaf o Gymanfa 1895 ("Mae popeth yn dda" / "A'i am fy meiau i" [tôn: Aylesbury]" / "Pan ddelo angau yn ei rwysg" [tôn: Burford]).

Beth felly yr hoffech ei ganu yn y Gymanfa Ddathlu ym mis Mehefin 2023?

nau glan a gana'n glir"

Dan nawdd Eglwysi Annibynnol
Groeswen a Bethlehem
Rhaglen

Y GANFED
CYMANFA GANU
A gynhelir yng
NGHAPEL BETHLEHEM
GWAELOD-Y-GARTH
Dydd Gwener y Groglith, 1 Ebrill 1988
Y Cyfarfodydd i ddechrau am 10.30, 2.30 a 6.00 o'r gloch

Arweinydd:
ALUN GUY
Caerdydd

Cyfeilyddion:
Mrs V. Archard, Groeswen
Mr. Glyndwr Williams, Bethlehem
Mr. Christopher Powell, Bethlehem

Swyddogion y Pwyllgor:
Cadeirydd: Wyn Roberts, Ysw.
Trysorydd: Christopher Powell, Ysw.
Ysgrifennydd: Robin D. N. Batema

Tybed a oes gennych ffefrynnau – yn blant ac oedolion?

Y bwriad fyddai dewis 10 ar gyfer y Gymanfa am 5:00 p.m. - Ie "Top 10" Bethlehem!

Beth am gael eich awgrymiadau – rhowch wybod ar frys os gwelwch yn dda, fel ein bod yn gallu dewis a dethol, a chreu Taflen briodol ar gyfer ei defnyddio i "gianu" a chodi'r to!

Anfonwch air at yr Ysgrifennydd cyn y 7fed o Ebrill 2023!

Rh-G J

Y Cwrdd Merched – Mis Chwefror

Nodi Canmlwyddiant y BBC

Rhagarweiniad gan Carol Davies, Pentyrch

Bob blwyddyn, ar yr ail ddydd Mawrth ym mis Chwefror, ry'n ni'n ffodus iawn o gael cwmni'r Parchedig Ddr. R. Alun Evans yn ein hannerch. Mae'r sgwrs yn amrywiol ac yn hynod o ddiddorol bob tro a doedd eleni ddim yn eithriad wrth gwrs. Beth oedd yn ddigon rhyfedd oedd bod Alun wedi dewis y teitl ***"Fesul cân, Fesul cwpled"*** eleni a hynny'n cyfeirio at hanes sefydlu'r BBC yng Nghymru ganrif yn ôl.

Y cyd-ddigwyddiad oedd mai canrif yn ôl ar Chwefror y 13eg 1923 am 6.50pm, oedd y tro cynta i lais John Reith gael ei glywed yn darlledu yng Nghymru ar y BBC o Stryd y Castell, Caerdydd. A chanrif i'r dydd Mawrth hanesyddol hwnnw'n cyfateb i Chwefror y 14eg eleni, sef dyddiad ein cyfarfod ni! Fel gwelwch isod, darllediad Saesneg oedd yr un cyntaf hwnnw ond yna fe gafodd y Gymraeg ei chlywed am y tro cynta pan ganodd Mostyn Thomas o Flaenau Gwent y gân "Dafydd y Garreg Wen".

Roedd nifer y bobol ddaeth i'r cyfarfod, yn ddynion yn ogystal â merched, yn brawf o'r parch sy' gyda ni ym Methlehem tuag at Alun ac ry'n ni'n ddiolchgar iawn iddo am fod wastad mor barod i rannu ei wybodaeth helaeth am amrywiaeth o bynciau gyda ni.

Diolch iddo am ein goleuo dipyn ynglyn â dechrau darlledu yn y Gymraeg ac am "ddweud yn dda" unwaith eto - dyfyniad a ddefnyddiodd Alun ei hun wrth sôn am grefft darlledu eraill.

Gobeithio bod y sgwrs wedi'n hysbrydoli nawr i ymweld ag arddangosfa "BBC 100 yng Nghymru" sydd yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru tan Ebrill yr 16eg.

Yn y llun uchod gwelir Alun ynghyd a dau arall o'n cyd-aelodau fu'n gydweithwyr iddo yn y BBC, sef Cedric Jones a Wyndham Richards, y ddau o Radur.

Isod, mae Alun yn amlinellu'r cerrig milltir yn hanes diddorol darlledu Cymraeg "Fesul Cân, Fesul Cwpled", sy'n esbonio arwyddocâd teitl ei anerchiad.

Pips y BBC

FESUL CÂN, FESUL CWPLED

R Alun Evans

- Menter fasnachol gan y British Broadcasting Company oedd y dechrau
- Gwaith y Cwmni oedd gwerthu'r syniad o 'wireless' a gwerthu setiau radio.
- Y Llywodraeth yn Llundain yn penderfynu ar y drefn o godi trosglwyddyddion
- Wedi Llundain, Birmingham, Manceinion – Caerdydd oedd yn bedwerydd ar y rhestr
- Codwyd y trosglwyddydd yng Ngwlad yr Haf [Washford Cross] i wasanaethu Cymru a Gorllewin Lloegr 'The West Region.' Rhanbarth oedd Cymru nid cenedl.



- Y darllediad cyntaf ar ddydd Mawrth, Chwefror 13, 1923 o stiwdio yn Heol y Castell gan ddefnyddio trosglwyddydd pŵer isel yn Eldon Road (ger y Stadiwm pêl-droed presennol)

(Parhad ar y dudalen nesaf)

FESUL CÂN, FESUL CWPLED

R Alun Evans

- Lleol iawn oedd y ‘gynulleidfa’ – ddim yn cyrraedd Pontypridd, Pen-y-bont ar Ogwr na Chasnewydd.
- Dechrau arni am bump y pnawn [Kiddywinks, rhaglen i blant]. Wedi bylchau, cyflwyniad gan John Reith, cyfarchiad gan yr Arglwydd Gainsford a chan Arglwydd Faer Caerdydd. Dim gair o Gymraeg tan wedi naw y nos – Mostyn Thomas [enillydd y brif unawd yn Eisteddfod Genedlaethol Rhydaman 1922] yn canu ‘Dafydd y Garreg Wen.’
- Y gair nesa o Gymraeg oedd ar Fawrth 1af 1923 – y Parchedig Gwilym Davies – yn dyfynnu cwpled Emrys; “Segurdod yw clod y cledd / A rhwd yw ei anrhydedd.”
- 1925: y Llywodraeth yn creu Comisiwn Brenhinol i ystyried dyfodol darlledu
- 1927: y Comisiwn hwnnw yn argymell mai fel gwasanaeth cyhoeddus y dylid datblygu, nid fel menter fasnachol. Dyma’r flwyddyn y daeth Y Gorfforaeth Ddarlledu i fod.
- Diffyg rhaglenni Cymraeg yn ofid i’r Bwrdd Addysg ac wedi hynny i Bwyllgor Darlledu Llys y Brifysgol.
- Honnid fod mwy o Gymraeg i’w glywed o 2RN yn Nulyn nac o Gaerdydd ac Abertawe. Byddai W. S. Gwynn Williams yn cymryd criw o gantorion draw o Gaergybi i Ddulyn gan fod gogledd Cymru yn llawn “insurrmountable technical difficulties” yn ôl prif-beirianwyr y BBC. Roedd Llys y Brifysgol yn mynnu cael cyfarfod i drafod y mater. I’r BBC roedd hyn yn “annoying and silly ... but we can easily refuse what they ask for.”
- 1933: penodi y Cymro Cymraeg cyntaf yn gynhyrchydd yng Nghaerdydd. Ei enw – Sam Jones.
- Nid ef, ysywaeth, a benodwyd yn Brif Gynhyrchydd yn 1935 ond yn hytrach ddyn a ddefnyddiau’r ffugenw ‘Elidir Sais.’ Anfonwyd Sam i agor gorsaf ddarlledu ym Mangor nad oedd eto’n bod! Dywedwyd wrtho y byddai wedi ei benodi i’r brif swydd pe bai yn “less Welsh.”
- Oes aur radio o’r cyfnod cynnar oedd o ddiwedd yr Ail Ryfel Byd hyd ganol y pum degau.
- Teledu yn gwthio’r radio i’r gornel.
- Mesur Teledu 1954 – dyfodiad teledu masnachol a’r BBC yn colli monopoli.

... ac ar yr un thema, bu Arwel Ellis Owen yntau'n nodi'r canmlwyddiant, ac mae anerchiad Arwel i Gymrodorion Caerdydd wedi ei chyhoeddi yn y rhifyn diweddaraf o'r "Dinesydd".

Cwrdd Merched Mis Mawrth

"LLWYBR FY YMDDEOLIAD"

Gwyn Roberts

Agorwyd ein cyfarfod gyda dewisiadau amserol gyda Carol yn cyflwyno soned o waith Dafydd Rowlands a Delyth yn ein harwain mewn gweddi at Sul y Fam. Yna cawsom gyflwyniad Gwyn Roberts, Rhydlafar, ar y testun 'Llwybr fy Ymddeoliad' sef ei daith ddiddorol ar **Lwybr Arfordir Cymru**.

Yn fachgen ifanc roedd Gwyn wedi arfer darllen map a chrwydro ac roedd wedi profi lawer o anturiaethau yn teithio ymhell ac agos o garej Glan-yr-Afon. Wedi ymddeol dechreuodd Gwyn gynllunio ei daith yn ofalus. Roedd hyd yn oed ei fag yn cynnwys hanfodion taith ddiogel. Roedd ynddi fwyd a diod, ffôn symudol i dracio ei leoliad, map, amserlen y bysus bach ac amserlen llanw a thrai y môr. Dechreuodd Gwyn grwydro'r arfordir o aber yr afon Ddyfrdwy ar gyrion Caer yr holl ffordd at Bont Hafren a Chasnewydd. Buan iawn y sylweddolodd fod pob ardal yn cynnig amrywiaeth ddiddorol o ran tirwedd a diwydiant lleol. Gwelodd amrywiaeth o flodau, pontydd, arwyddion, celfyddyd broc môr a thai lliwgar glan y môr. Er nad oedd adnodd i drosglwyddo lluniau fe lwyddodd Gwyn i ddarlunio arfordir arbennig Cymru yn glir a diddorol.

Fe gafodd Gwyn brofiad bythgofiadwy ac fe gawsom ninnau fwynhau a gwerthfawrogi ei gamp o gerdded arfordir Cymru ar lwybr ei ymddeoliad

Menna Jones

* * * *

Ar hyn o bryd, trwy gyd-ddigwyddiad hapus, mae Llwybr yr Arfordir yn destun Arddangosfa yn Oriel Canfas, Treganna, lle mae un o'n cyd-aelodau, Anthony Evans, Yr Eglwys Newydd, yn gweithio. Ar bnawn Sadwrn, Mawrth 18, agorwyd yr arddangosfa sy'n dathlu'r llwybr mewn lluniau, cerddi, ffilm, stori a cherfluniau ac mae hi i'w gweld yno hyd Ebrill 15. Os nad ydych chi eisoes wedi bod – ewch! ***(Uchod, fe welwch Anthony a Glenys yn oedi cyn y prysurdeb mawr ar bnawn yr agoriad. Tu ôl iddyn nhw mae 'O Fynydd Cilan i Borth Ceiriad' un o luniau Anthony yn yr arddangosfa.)***

Mae gennym achos triphlyg dros ddathlu a llongyfarch tri ddaeth i'r brig mewn cystadlaethau'n ddiweddar.

- Eifion Glyn, enillydd Y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd, gyda'i stori fer "Cyw a Fegir yn Uffern"
- Rhys Powys, enillydd Y Gadair yn Eisteddfod Dosbarth Cynghanedd Menter Caerdydd, gyda'i gerdd "Afon".
- Hannah Roberts, enillydd cadair Eisteddfod Bryn Berian am ei cherdd "Yfory" – cadair rhif 23!

Mae'r tri wedi bod yn ddigon graslon i gyfrannu i'r rhifyn hwn o'r "Gair Bach" – Eifion gyda'i erthygl isod am ysgrifennu'n greadigol a Rhys a Hannah gyda'u cerddi buddugol.

Ysgrifennu'n Greadigol

Eifion Glyn

Pan wnes i ymddeol yn 2014 ro'wn i'n llawn syniadau aruchel am yr hyn oeddwn am wneud efo'r holl amser fyddai gen i ar fy nwylo. 'Wnes i addo i fi fy hun y byddwn yn dysgu iaith newydd, dysgu canu'r piano, gwneud ioga, troi'n llaw at sgwennu creadigol, darllen mwy o lenyddiaeth ac yn y blaen ac yn y blaen. Roedd y rhestr yn ddi-ddiwedd. Ond tân shafins ac addewidion mewn gogor oedden nhw bron yn ddieithriad.

Do, 'dw i wedi darllen mwy o lyfrau ac wedi ceisio ail afael mewn ysgrifennu yn greadigol. Ond cofiwch ysbeidiol iawn fuodd hynny. Rhyw ddyn hyrddia ydw i mae arna i ofn. Mi a i ati fel lladd nadroedd i ddarllen gweithiau rhyw awdur o bwys am blwc. Yna dim darllen sill, dim ond edrych ar chwaraeon am oriau bwy gilydd ar y teledu. 'Does affliw o wahaniaeth be ydi'r gêm - tidliwincs i ymladd cawell, mi eistedda i yno fel delw.

Efo'r busnes darllen yma, am mai gweithio ym myd materion cyfoes oeddwn i, pethau ffeithiol oedd y rhan fwya o'r defnydd fyddwn i'n ymhél â nhw ac ar y cyfan yn Saesneg - dogfennau, adroddiadau a llyfrau hanes a gwleidyddiaeth. Yn aml darllen rheiny ar garlam y byddwn gan fod dedleins i'w cyrraedd, felly rhyw fras ddarllen, sgimio dros eiriau fydda rhywun.

Mi fyddai yna adeg, flynyddoedd maith yn ôl, pan fyddwn yn darllen fflyd o lyfrau Cymraeg boed ryddiaith neu farddoniaeth. Lleihau yn sylweddol wnaeth hynny yn ystod fy ngyrfa er y byddwn yn gwneud ymdrech i ddarllen Cyfansoddiadau'r Steddfod bob blwyddyn, yr awdl, y goron a'r cyfrolau rhyddiaith arobryn. Ond yn aml, yn arbennig efo'r farddoniaeth, fyddwn i ddim yn oedi ac ail ddarllen os nad oeddwn i'n deall yr hyn oedd yn cael ei ddweud ar y darlleniad cyntaf.

Ar anogaeth Joy mi wnes ymuno efo dosbarth llenyddiaeth y prifardd Cyril Jones ac mi wnaeth hynny ail danio fy niddordeb ac agor fy meddwl i werthfawrogi llenyddiaeth yn llawer mwy eang. Mae Cyril, yn ei ddosbarth wythnosol, yn eich cyflwyno i farddoniaeth a rhyddiaith Gymraeg a Saesneg o Gymru a thu hwnt. Ond yn fwy na dim ond cyflwyno, mae'n eich procio i feddwl, ymateb a thrafod.

O ran sgwennu wedyn, yn fy ngwaith, sgriptio rhaglenni a pharatoi papura cefndir briffio oedd y dasg. Ond ar ôl riteirio roeddwn wedi addunedu ceisio troi fy llaw at bethau mwy creadigol. Breuddwydiwn am sgwennu nofel afaelgar a chyfres o straeon byrion neu hyd yn oed ysgrifau. Un peth oedd breuddwydio. Peth arall oedd cyflawni

Mi ga' i ryw chydig ddyddiau yn achlysurol lle bydda i'n mwydro mhen efo rhyw waith ymchwil yn gysylltiedig â syniad am stori fer neu nofel. Yna ar ôl sgwennu hanner dwsin o baragraffau, rhoi'r ffidil yn y to. Mam oedd yn iawn, un am siarad wrth y pwys a byw wrth yr owns oeddwn ac ydw i.

Mi oedd gen i ryw lun o ddiddordeb mewn sgwennu erioed am wn i. Dyna, beryg, pam y bwris ati i gael gyrfa fel newyddiadurwr. Fues i'n ffodus i ennill cadair Steddfod yr ysgol yn 1970 ac wedyn coron Steddfod yr Urdd ym Mhontypridd yn 1973. Ond a bod yn onest, fuodd o erioed yn rhyw ddiddordeb ysol gen i. Yn wahanol i'r sgwennwrs go iawn yma do'n i ddim yn teimlo bod gen i unrhyw beth mawr i'w ddweud na bod dim yn pwyso arna i a ngorfodi i mi ei chwydu ar bapur neu gyfrifiadur.

Yn fuan ar ôl i mi ymddeol mi wnaeth y plant brynu anrheg penblwydd i mi - penwythnos yn Nhŷ Newydd, Llanystumdwy, dan arweiniad Caryl Lewis. Ro'n i newydd ddarllen rhai o nofelau yr awdures o Geredigion ac wedi gwirioni ar ei dawn. Ond fedrwn i ddim yn fy myw a rhoi dau air ar bapur. Doedd y syniadau ddim yn llifo ac roedd atal dweud ar y dweud. Un o'r pethau oedd yn peri mwy o drafferth i mi na dim arall oedd newid o arddull ffeithiol sgwennu sgriptiau i arddull fwy creadigol. Wrth newyddiadura mae amwysedd yn gamwedd ond efo sgwennu creadigol mae'n rhinwedd. Ydi, mae'n anodd tynnu cast o hen geffyl.
Ond dyna fo, dyfal donc pia hi debyg ac roedd cael beirniadaeth bositif yn Steddfod Gadeiriol Caerdydd yn sbardun i mi o leia ddal ati.

Afon

Rhys Powys

Cerdd y Gadair yn Eisteddfod Dosbarth
Cynghanedd Menter Caerdydd

"Dwi'n y Beeb." "A dwi'n y banc."
Afon o Gymry ifanc
Hwyliog, hardd - 'mhell o'u tarddiad
Yn y glaw yng nghefen gwlad.
At eraill maent 'di tyrru,
Yma'n groyw, loyw lu,
Yn genfaint ddaeth i ganfod
Ffordd o fyw'n lle ffordd o fod.
A'r afon fu'n ffrydio'n ffri
O afael y pentrefi.

Yn don, fesul un a dau - ein dinas
A'u denodd yn heidiau
Yn ddi-ffws, ond yn ddi-ffael
I adael tir cyndeidiau.

A yw'r afon yn arafu - difrod
Y dyfroedd yn pylu,
A'r hyder fu'n ein strydoedd
Yn foroedd o ddifaru?

Yfory

Hannah Roberts

Cerdd y Gadair
yn Eisteddfod Bryn Berian

Yno,
mae g'leuadau'r sêr
ar goeden Nadolig y nos
yn wincio'n wên i gyd.

Oddi tano,
mae blwch yn barod
wedi'i lapio ar gyfer
gŵyl.

Mae carolau'r cosmos yn canu,
seiniau dirgel y gofod,
plygain y planedau
yn Holstaidd bêr.

*Wrth i Helios**
yn ei glogyn oren
ddringo i do'r cefnfor;
o'i sach serchog
gesyd barsel llachar ar garped y gorwel.

A bysedd rhosynnog y bore bach
yn datod clymau cyfrinach,
yno,
mewn papur pinc pert
mae "Yfory'n" cwato,
yn wên o wrid,
yn bresant bore'r ŵyl
i bawb.

*[*HELIOS—duw Groegaidd yr haul.]*

Deiseb Cytûn

Cadw'n Gynnes

Mae Bwletin Cytûn – rhifyn mis Chwefror a Mawrth 2023 yn cynnwys yr erthygl hwn, sydd yn ein hannog i lofnodi deiseb *Climate Cymru* fel â ganlyn:-
"Rydym yn profi argyfwng costau byw, argyfwng ynni, ac argyfwng hinsawdd ar yr un pryd.
Maent i gyd yn cael eu hysgogi gan ein dibyniaeth ar olew a nwy drud, ac yn rhannu'r un atebion.
Bydd buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy rhatach ac insiwleiddio cartrefi yn gwneud gwresogi ein cartrefi'n fwy fforddiadwy, yn lleihau'r pwysau ar ein pocedi, ac yn lleihau allyriadau sy'n dinistrio'r hinsawdd.
Mae Climate Cymru, y mae Cytûn yn aelod ohono, yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu trwy ddarparu cymorth brys i aelwydydd bregus, gweithredu rhaglen effeithlonrwydd ynni uchelgeisiol, cynyddu ynni adnewyddadwy cost isel yn gyflym a'n rhyddhau ni rhag Tanwydd Ffosil."

Llofnodwch y ddeiseb fan hyn:
Tell Welsh Government to take urgent action to keep people warm this winter \ Dweud wrth Llywodraeth Cymru i gymryd camau brys i gadw pobl yn gynnes y gaeaf yma. - Action Network

Gallwch weld Bwletin Cytûn yn gyfan drwy glicio fan hyn:
Bwletin Polisi Chwef/Mawrth 2023 – Eglwysi Ynghyd yng Nghymru | Churches Together in Wales (cytun.co.uk)

GWEDDI AR GYFER Y PASG 2023

(drwy law Mudiad 'Adferiad')

Cysur Duw
Yn nherfysg fy naearfyd – f'angor yw,
Fy nghraig ym môr bywyd;
Fy rhwyf ar gefnfor hefyd,
Ar fin glan, yr hafan glyd." (***Anhysbys)***

Wyddom ni ddim pwy ysgrifennodd y geiriau uchod, na phryd na pham, nac yn lle – "o darddiad neu awduriaeth dienw" yw "anhysbys" yn ôl Geiriadur Prifysgol Cymru! Ond fe allai cymal cyntaf y llinell agoriadol fod wedi ei hysgrifennu heddiw neu ddoe, neu'r wythnos diwethaf o ystyried maint y terfysg a'r difrod, y rhyfela a'r casineb, sydd yn brigo ym mhob cwr o'n byd ni. Tybed mai'n difaterwch ni sydd i'w gyfrif am y fath stad? Cofier bod gwerthu arfau mileinig wedi eu cynhyrchu yn ein ffatrïoedd ni yn creu archollion a cholli gwaed i gyd-ddyn a chymdeithas; Cofier bod ymdrechion gwledydd cyfagos i ennill goruchafiaeth dros eu cymdogion hefyd yn staen ar ein haelwydydd ni; Cofier bod llwgrwobrwyo er budd etholiadol a llywodraethu yn gorseddu anonestrwydd ar draul gwirionedd, a ninnau mor ddiniwed ac mor barod i gael ein suo i'w dderbyn yn ddi-gwestiwn. Deisyfwn nerth i greu byd gwâr, lle nad ydyw y barus na'r milain na'r cyfrwys yn dewis y cyfeiriad i'n tywys. Gwyddom hefyd fod ein daear ni ar adegau yn gallu colli ei thymer yn go arw – gall greu tywydd anwadal, gall chwyrnu a rhuo a rhwygo, gan ddinistrio cartrefi a chymunedau. Dyna pryd y gwelwn dosturi a chariad tuag at ein cyd-ddyn yn brigo ac yn blodeuo. Bydded i'n gofal dros ffoaduriaid fod yn gynnes ac yn gymeradwy. Bydded i'n cyfraniadau i'r elusennau rheini sy'n herio'r dinistr wyneb yn wyneb fod yn hael. A bydded i'r brawdgarwch hwnnw sy'n amlygu ei hun mewn argyfwng fod yn amlwg hefyd yn ein hymwneud â'n gilydd pan fydd y llwch wedi setlo, a'r boblogaeth unwaith yn rhagor yn hercian o ofid i ofid wrth i'r byd droi ar ei echel fel erioed. Ac wrth sylwi ar weddill yr englyn, unigolyn sy'n siarad, ac am a wyddom gallai yntau fod yn unigolyn bregus ei ffawd a'i fyd – ond mae'n siarad gydag argyhoeddiad am angor, am graig, am rwyf, ac am hafan glyd. I bawb sy'n gaeth, i bawb sydd â dibyniaeth, i bob un sydd yn teimlo chwerwder mewn bywyd, i bob un sy'n ddigyfeiriad a diymadferth, bydded i "Gysur Duw" fod ar eu lleferydd. A bydded i neges y Pasg eleni fod yn gyfle o'r newydd i gyfleu llawenydd a gobaith mewn byd o dywyllwch.

AMEN

Lawr yn y Bae

Sul 'CyfUNdeb' Dwyrain Morgannwg

Mawrth 12fed 2023

(Uchod) Delwyn Sion yn arwain trafodaeth fel rhan o "CyfUNdeb", sef Sul Cyfundeb Dwyrain Morgannwg, yng Nghanolfan yr Urdd, Bae Caerdydd.

(Lluniau: Cyfundeb Dwyrain Morgannwg)

(Isod) Y gynulleidfa ar ddiwedd y sesiwn wedi dod at ei gilydd i gynnal oedfa fer cyn ymadael am eu cinio!

... ac i'ch atgoffa eto...

NOS SADWRN NESA YMA!

Mae Swn Llwythol yn fenter a arweinir gan SOEL Music, grŵp cerdd dan arweiniad du sydd wedi'i leoli yng Nghaerdydd. Nod y prosiect hwn yw defnyddio cyfuniad o ddiwylliant a threftadaeth Gymreig / Affricanaidd i ddod â chymunedau at ei gilydd, cofleidio diwylliannau a chadw treftadaeth trwy ganu corawl.

Bydd y prosiect hwn yn rhoi cyfle i'r di-Gymraeg archwilio'r dreftadaeth hon, gan greu gofod diogel ar gyfer rhyngweithio diwylliannol a chyfle i archwilio ymdeimlad o berthyn a rhoi cyfle i gymunedau sy'n amrywio'n foesegol gael mynediad i'r Gymraeg trwy weithgareddau hwyliog.

Mae gan yr iaith Gymraeg dreftadaeth gyfoethog o seiniau adfywiad, synau rhyddid rhag gormes (fel Brodyr a Chwiorydd Affricanaidd).

Bydd Côr Cymunedol Swn Llwythol yn ymarfer portffolio o emynau a chaneuon Cymreig gyda chyfuniad o rythmau a seiniau Affricanaidd a fydd yn cael eu perfformio yn ei sioe arddangos gyntaf erioed yng Nghaerdydd, ***Nos Sadwrn 25ain o Fawrth 2023 – am 6.30, Capel Tabernacl, Yr Ais.***

Dyna ni am y tro... Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu mewn unrhyw ffordd.

Cofiwch am ein rhifyn nesaf! Dedlein Mai 5ed, 2023

UNRHYW BWNC ~ UNRHYW HYD

Anfonwch air neu lun at Ifan Roberts – tycnau@aol.com